

CaBan

Llawlyfr Modiwl
XPC/XPE-3220
Profiad Ysgol
TAR Uwchradd

Mae profiad ysgol yn rhan hanfodol o holl gyrsiau addysg gychwynnol athrawon. Mae'r modiwl hwn yn gyfle i chi arsylwi dysgwyr ac athrawon yn yr ysgol, rhoi cynnig ar syniadau a phrofiadau proffesiynol newydd ac, yn bwysicaf oll, adfyfyrio ar eich ymarfer eich hun a'i wella.

Amcanion a phwrpas cyffredinol

Bydd y modiwl hwn yn:

- Rhoi cefnogaeth i chi ddatblygu ystod o sgiliau yn annibynnol (gan gynnwys cryfhau eich gwybodaeth o'r Gymraeg i hyrwyddo 'Cymraeg Pob Dydd') ac ymarfer adfyfyriol i fodloni gofynion y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth (PSTL) i ddod yn athro cymwysedig a chyfrannu at y gymuned ddysgu;
- Sicrhau eich bod yn gwbl ymwybodol o sut mae cymhwyso gwybodaeth ac ymarfer adfyfyriol yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i ddysgwyr;
- Rhoi cefnogaeth i chi adnabod ystod eang o dechnegau'n annibynnol, er mwy adfyfyrio'n feirniadol ynghylch eich datblygiad proffesiynol eich hun ac ymdoddi i amgylchedd yr ysgol;
- Rhoi cyfleoedd i chi ddatblygu dealltwriaeth o gynnwys, egwyddorion a ffocysau XTE4214 a XTE4212 yn eu cyd-destun.

Cynnwys y Modiwl

Bydd y modiwl profiad ysgol uwchradd yn datblygu eich medrusrwydd mewn addysgu a dysgu. Bydd yn cynnwys seminarau agos at yr ymarfer a fydd yn cael eu harwain ar y cyd (yn y lleoliad) ac a fydd yn dangos i chi sut i addysgu ac arsylwi yn yr ysgol. Bydd y strwythur yn dilyn dull graddol o ddysgu sut i addysgu. Dyma enghraifft o'r patrwm:

- Cam 1: Paratoi (SAU ac Ysgolion Arweiniol)
- Cam 2: Integreiddio (SAU, Ysgolion Arweiniol ac Ysgolion Rhwydwaith)
- Cam 3: Datblygu (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth yr Ysgolion Arweiniol a SAU)
- Cam 4: Ymarfer a gweithredu (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth Ysgolion Arweiniol a SAU)
- Cam 5: Ôl-drafod ac adfyfyrio (SAU ac Ysgolion Arweiniol)
- Cam 6: Gweithredu pellach mewn ail ysgol (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth Ysgolion Arweiniol a SAU)
- Cam 7: Cyfnerthu sgiliau ac ymarfer gwybodaeth pwnc mewn ail ysgol (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth Ysgolion Arweiniol a SAU)
- Cam 8: Datblygu a chyfoethogi annibynnol (Ysgolion Rhwydwaith gyda chefnogaeth yr Ysgolion Arweiniol a SAU)

Bydd y camau hyn yn cynnwys:

- digwyddiadau addysgu ac adolygu wythnosol mewn clwstwr;
- arsylwadau a datblygiad paratoadol;
- ymchwil agos at ymarfer (ymchwiliadau ar raddfa fach);
- integreiddio i'r amgylchedd addysgu;
- ymarfer a gweithredu sgiliau lefel uwch;
- mentora a hunan-adyfyrio;
- gweithredu pellach trwy ymarfer;
- cyfnerthu sgiliau ac ymarfer;
- datblygiad annibynnol parhaus a chyfoethogi eich ymarfer.

Asesu

Yn ystod y modiwl byddwch yn adfyfrio'n barhaus ar eich cynnydd gyda'ch cydweithwyr a'ch mentor ac yn uwchlwytho'r dystiolaeth berthnasol i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol. Ar ddiwedd y modiwl, byddwch yn dangos eich bod wedi gwneud cynnydd boddhaol yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Yn achos y modiwl hwn, caiff pasio neu fethu ei gofnodi yn y bwrdd arholi gan ddefnyddio'r PSTL. Mae'r holl fanylion asesu yn erbyn y PSTL wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Asesu PSTL ac mae manylion am sut i ddefnyddio'r Cynllun Dysgu Personol (CDP) ar gael ar-lein.

Deilliannau dysgu

Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, byddwch yn gallu:

- Archwilio'n feirniadol yr arferion, rhagdybiaethau a'r damcaniaethau sy'n sail i gynllunio a strwythuro dysgu'r disgyblion a rheoli eu hymddygiad mewn ysgolion uwchradd o safbwynt polisi, ymchwil, theori ac arferion cyfredol;
- Dangos dealltwriaeth a phrofiad soffistigedig o addysgu sy'n sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'r gallu i fod yn uchelgeisiol a medrus, mentrus a chreadigol, moesegol a gwybodus, iach a hyderus yn ôl y gofyn y cwricwlwm.
- Dangos dealltwriaeth ddofn o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o wahanol safbwyntiau a'r camau wedi'u gwerthuso a gymerwyd i roi sylw iddynt;
- Rheoli a threfnu ystafelloedd dosbarth sy'n hyrwyddo diwylliant lle ceir dyheadau uchel ac ymddygiad sy'n cefnogi dysgu;
- Cyfoethogi ymdeimlad dysgwyr o werthoedd cymunedol a diwyllianol trwy ddefnyddio eich gwybodaeth o'r cwricwlwm Cymreig;
- Adfyfrio'n feirniadol ar eich cynnydd a gosod targedau ar y cyd gyda'ch mentor er mwyn bodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth neu ragori arnynt.

Cynnydd mewn Dwyieithrwydd

Cyflwynir dwyieithrwydd yng nghyd-destun y cwricwlwm Cymreig unigryw i chi, a'r gwahanol ffyrdd y mae hyn yn cael sylw yn y gwahanol fathau o ysgolion (cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg). Byddwch hefyd yn astudio nodau ac amcanion addysg ddwyieithog o wahanol safbwyntiau, yn ystyried addysg Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) ac yn edrych ar y materion penodol sy'n gysylltiedig ag asesu disgyblion dwyieithog. Ar ôl hynny, byddwch yn ystyried y deilliannau disgwylidig a realistig ar gyfer gwahanol fathau o ddisgyblion dwyieithog. Byddwch yn dod i wybod am y polisiau iaith sydd ar waith mewn ysgolion, a strategaethau penodol sy'n cael eu cynnwys yn y cwricwlwm i roi sylw i sgiliau iaith dysgwyr, a dod i ddeall y rhain.

Cyflwyno wedi'i oleuo gan ymchwil ac addysgu seiliedig ar ymchwil

Bydd cynnwys a dull cyflwyno'r modiwl yn eich annog i wneud adolygiad beirniadol uwch o bwysigrwydd bod yn ddefnyddwyr a chynhyrchwyr ymchwil ac i ddadansoddi, cyfod ac adfyfrio'n feirniadol ar y sbectrwm ymchwil sy'n goleuo ymarfer addysgu. Rydym yn eich annog hefyd i gynnig gwerthusiad beirniadol uwch o ymchwil sy'n seiliedig ar ymarfer neu ymchwil agos at ymarfer. Bydd y modiwl yn datblygu gwybodaeth uwch am ysgolheictod athrawon ac effaith hirdymor cymryd rhan mewn ymchwil ar eu datblygiad proffesiynol personol a'r hyn mae'n ei olygu i fod yn athro sy'n wybodus o ran ymchwil. Bydd y modiwl yn annog meistrolaeth uwch o'r hyn y mae'n ei olygu i ddatblygu 'diwylliant ymholi' o fewn systemau ysgolion hunan-wella, ysgolion fel sefydliadau dysgu, a phwysigrwydd datblygu Cymunedau Dysgu Proffesiynol a chymryd rhan ynddynt. Bydd ymchwil benodol a rennir yn ystod digwyddiadau rhwydwaith yn cysylltu'n agos â chynnwys XTE-4211 a XTE-4213 ac fe'i defnyddir i oleuo asesiadau ar gyfer y ddau fodiwl lefel 7 arall

Y Dyddlyfr Proffesiynol

Trwy gydol y modiwl cewch lawer o gyfleoedd i arsylwi, ymarfer ac adfyfrio. Byddwch yn cadw nodiadau ymchwil mewn dyddlyfr proffesiynol sydd wedi'i lunio i gefnogi'ch cynnydd fel AC newydd.

Arsylwi ac adfyfrio


Yn ogystal â'r cyflwyniad cychwynnol i addysgu effeithiol, bydd y modiwl hwn yn canolbwyntio ar ddwy sgil ymchwil hanfodol i ymarferwyr: arsylwi ac adfyfrio. Byddwch yn defnyddio'r cwestiynau hyn i lunio eich adfyfyrdod ar eich ymarfer eich hun yn ogystal â'ch arsylwadau o eraill:

- *Beth wnaeth y disgyblion mewn gwirionedd?*
- *Beth oeddent yn ei ddysgu?*
- *Pa mor fuddiol oedd hynny?*
- *Beth wnes i? (Beth wnaeth yr athro/athrawes?)*
- *Beth wnes i ei ddysgu?*
- *Beth ydw i'n bwriadu ei wneud nesaf?*


(Ebbutt, 1985, in Hopkins, D., 2014. *A teacher's guide to classroom research*. London, UK: McGraw-Hill Education).

Y Craidd Cyfarwyddol

Yr ail offeryn dadansoddi a ddefnyddir i ddadansoddi cyd-destun cymhleth ymarfer dosbarth fydd y Craidd Cyfarwyddol (City, E.A., Elmore, R.F., Fiarman, S.E. and Teitel, L., 2009. *Instructional rounds in education*. Cambridge, MA: Harvard Education Press. http://www.macombfsi.net/uploads/1/5/4/4/1544586/instructional_rounds_-_principles.pdf)



Ffig. 2 Y Craidd Cyfarwyddol (ar sail City et al, 2009 t23)



Astudiaeth Gwers

Yn drydydd, yn ystod eich lleoliad cyntaf, byddwch yn dadansoddi addysgu a dysgu ochr yn ochr â'ch mentor gan ddefnyddio Astudiaeth Gwers (Cajkler et al., 2013), methodoleg ymchwil y byddwch yn ei defnyddio eto yn eich modiwlau Profiad Ysgol ail a thrydedd flwyddyn.

Cajkler, W., Wood, P., Norton, J. and Pedder, D., 2013. Lesson study: towards a collaborative approach to learning in initial teacher education. *Cambridge Journal of Education*, 43(4), pp.537-554.

Y Pedwarawd Gwybodaeth

Mae'r pedwerydd offeryn adfyfyriol hefyd yn set o gwestiynau; y tro hwn fe'u dosberthir yn ôl pedwar gwahanol fath o wybodaeth a elwir yn **Pedwarawd Gwybodaeth** (Rowland et al. 2005)

Gwybodaeth sylfaen	Gwybodaeth drawsnewid
<p>Beth wnaeth yr addysgu a'r dysgu yn y wers hon ei ddatgelu am:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wybodaeth bwnc yr athro; • eu gwybodaeth o'r cwricwlwm; • eu daliadau ynghylch natur y pwnc; • eu daliadau ynghylch addysgu a dysgu; • eu gwybodaeth am y disgyblion? 	<p>Pa weithgareddau athro (arddangosiadau, gwaith ymarferol, deunyddiau hyfforddi ac asesu) a ddefnyddiwyd gan yr athro i hwyluso dysgu'r disgyblion?</p> <p>Pam y gwnaethant ddewis y dulliau hyn?</p> <p>A oedd yn glir i ddisgyblion beth yr oeddent i fod i'w wneud, pam roeddent yn ei wneud a beth fyddent yn ei ddysgu?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gefnogi'r disgyblion i ddeall cysyniadau?</p> <p>Beth wnaeth helpu'r disgyblion i ddysgu? (Pryd wnaeth y disgyblion ddysgu fwyaf yn ystod y wers?)</p>
Gwybodaeth gyswilt	Gwybodaeth amodol
<p>Sut wnaeth yr athro gysylltiadau rhwng gweithgareddau <u>yn ystod y wers</u>?</p> <p>Sut wnaeth yr athro sicrhau dilyniant rhesymegol o weithgareddau?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltiadau â dysgu blaenorol a dysgu i ddod?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltu'r amcanion dysgu â'r gweithgareddau?</p> <p>Sut wnaeth yr athro gysylltu'r gweithgareddau â'r cwricwlwm?</p>	<p>Sut yr ymatebodd yr athro i syniadau myfyrwyr?</p> <p>A oedd achosion o ddigwyddiadau heb eu cynllunio yn digwydd: e.e. myfyriwr yn gofyn cwestiwn annisgwyl, diffyg adnoddau neu rywbeth 'yn mynd o'i le'?</p> <p>Os felly, beth oeddent a beth oedd eu harwyddocâd?</p> <p>Sut wnaeth yr athro ymateb / ymdopi?</p>

Cyfrifoldebau Proffesiynol

Yn ystod eich lleoliad ysgol, dylech gwblhau'r gweithgareddau canlynol:

- Mynd gydag athro ar ddyletswydd un diwrnod yr wythnos.
- Cynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol y dosbarth gofrestru dan arweiniad y mentor neu'r tiwtor dosbarth

Y Gofynion Cyfreithiol

- Cael copi o bolisi'r ysgol ar Amddiffyn Plant, Gwrth-fwlio, Disgyblaeth ac Atal (gall hwn fod yn gopi electronig neu gopi caled).
- Sicrhau eich bod yn llenwi'r dudalen diogelu plant ar gyfer yr ysgol arweiniol a'r ysgol rwydwaith yn eich dyddlyfr proffesiynol.
- Cwblhau'r holiadur y cod ymddygiad proffesiynol ar-lein cyn i'r lleoliad ddechrau.

Wyth Cam Datblygiad AC Caban

Cam 1

Ffocws: Dechrau deall sut y cynllunnir ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau ac ar wahanol gamau datblygu (datblygiad cyfannol) - cefnogi asesu

Cam 2

Ffocws: Cyfnerthu ymhellach ac adeiladu ar ymwybyddiaeth o gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol) a rheoli ymddygiad a dysgu. Dechrau deall asesu a'i effaith ar ddysgu disgyblion.

Datblygu ymarfer: Addysgu micro / addysgu fel tîm / addysgu fesul cam dan arweiniad mentor (hyd at 30%)

Cam 3

Ffocws: Cyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu mewn gwahanol gyd-destunau (datblygiad cyfannol) / Canolbwyntio ar gynllunio tymor byr. Dechrau nodi ffyrdd y gellir ymgorffori cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a datblygu ymwybyddiaeth o addysgeg pwnc-benodol (Astudiaethau Pwnc 1.1, Llythrennedd a Rhifedd). Adnabod y sgiliau llythrennedd a rhifedd personol y mae angen eu datblygu.

Datblygu ymarfer: symud ymlaen fel bo'n briodol o addysgu micro / addysgu fel tîm i fwy o annibyniaeth a gwersi llawnach (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 3-5 awr o wersi).

Cam 4

Ffocws: Cyfnerthu ac adeiladu ymhellach ar gynllunio ar gyfer dysgu (datblygiad cyfannol).

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth a gwersi llawnach (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 8 awr o wersi).

Cam 5

Ffocws: Trafod ac adfyfrio ar brofiad ysgol cyntaf. Datblygu arbenigedd mewn dulliau ymchwil (ymchwil weithredol a dulliau casglu data pellach). Arsylwi ac adfyfrio yn y cyfnod cynradd blaenorol.

Cam 6

Ffocws: Arsylwi beirniadol ar ymarfer effeithiol. Cynllunio ac addysgu mewn ail gyd-destun newydd.

Datblygu ymarfer: Annibyniaeth gynyddol a gwersi cyflawn (cyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno 8 awr o wersi).

Camau 7 - 8

Ffocws: Cyfnerthu sgiliau ac ymarfer.

Datblygu ymarfer: Cyflawni annibyniaeth a dysgu gwersi cyflawn gyda chyfrifoldeb am gynllunio a chyflwyno hyd at 12 awr o wersi.

Mae pob cam yn gysylltiedig ag asesiadau modiwlau. Bydd amseriad rhain yn dibynnu ar addasiadau strwythur y cwrs i ddygymod â phellhau cymdeithasol a pholisïau'r brifysgol a'r ysgolion yn dilyn pandemig Covid-19.

Mae'r tudalennau canlynol yn dangos cynllun manwl o wyth cam y modiwl profiad ysgol

Lleoliad

Ysgol Arweiniol	MARh - Mentor Arweiniol Rhwydwaith	PF - Prif Fentor
Ysgol Rwydwaith	MY - Mentor Ysgol	FfAA - Ffurflen Asesu Addysgeg
Sefydliad AU	APY - Adroddiad Profiad Ysgol	MDPh - Maes Dysgu a Phrofiad

Covid-19 - ymbellhau cymdeithasol

Mae'r tudalennau canlynol yn enghreifftiol yn unig a gall hyd ac amseriad pob lleoliad amrywio, yn dibynnu ar bolisiau'r brifysgol, y coleg a'r Llywodraeth.

Noder bod pob diwrnod ysgol arweiniol a seminar SAU yn gallu newid oherwydd yr ansicrwydd sy'n deillio o'r pandemig Covid-19.

Ar y tudalennau canlynol, gall unrhyw weithgareddau a chyflwyniadau'r ysgol arweiniol gael eu cyflwyno ar-lein a bydd disgwyl i chi aros yn eich ysgol rwydwaith neu weithio o gartref ar y diwrnodau hyn.

Gellir cyflwyno diwrnodau coleg mewn grwpiau seminar bach lle gellir cynnal pellter cymdeithasol, gyda Skype, Timau neu Zoom, neu mewn fforymau trafod ac ystafelloedd sgwrsio ar-lein. Bydd manylion y r arddull a'r lleoliadau yn cael eu rhannu gyda phob un ohonoch mewn dabryd.

Gallai cynnwys seminarau SAU ac ysgolion arweiniol fod yn wahanol i'r hyn a nodir yn y llawlyfr hwn; cyfeiriwch at Blackboard a chadwch olwg gyson ar y cyhoeddiad.

Ar gyfer y tudalennau canlynol, mae gweithgareddau wedi'u cynllunio i hwyluso ac i strwythuro arsylwadau ac adfyfrio'r AC. Awgrymiadau yw'r drefn a'r amseru a gall yr ysgol, yr adran a'r mentor fod eisiau aildrefnu'r gweithgareddau i gyd-fynd â'u hanghenion.

Cam 1 Wythnos 1 Arsylwi yn yr Ysgol Gynradd

Oherwydd y sefyllfa Covid 19 yn 2020-2021 bydd Wythnos 1, Cam 1 yn digwydd yn y brifysgol ac nid ar leoliad

Cyn Cam 1 cynhelir seminar dulliau ymchwil a fydd yn disgrifio'r canlynol: sut mae arsylwi a gwranddo; beth i chwilio amdano; gweithio'n foesebol; natur tystiolaeth yn yr dosbarth; cadw dyddlyfr. Bydd y rhain yn sail i'r holl weithgareddau yn yr ysgol gynradd. Bydd AC yn cael gwybodaeth am eu hwythnos ysgol gynradd yn y SAU ymlaen llaw.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Cyfarfod â'r Pennaeth.</p> <p>Sefydlu trefniadau lechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant.</p> <p>AC yn Arsylwi mewn dosbarth gyda ffocws ar yr ysgol fel cymuned. Canolbwyntio ar amgylchedd yr ystafell ddosbarth a'r berthynas a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion.</p>	<p>Arsylwi: AC yn arsylwi sut mae'r 4 diben yn cael eu datblygu yn ystod gwersi yn CA2. Unwaith eto, maent yn canolbwyntio ar un diben ar y tro ym mhob gwर्स</p>	<p>AC yn Arsylwi tri disgybl o ddosbarth blwyddyn 3/4 mewn dwy wers (mewn mathemateg neu iaith os bosib); Mae AC yn edrych ar waith ysgrifenedig/ ymarferol, yn gwranddo ar ymatebion, arsylwi sut mae disgyblion yn gweithio gydag eraill, arsylwi sut mae disgyblion yn rhyngweithio ac yn dysgu; dadansoddi gwahaniaethu (adnoddau, cwestiynau, tasgau) ac ati.</p>	<p>AC yn Arsylwi tri disgybl o ddosbarth blwyddyn 5/6 mewn dwy wers (mewn mathemateg neu iaith os bosib); Mae AC yn edrych ar waith ysgrifenedig/ ymarferol, yn gwranddo ar ymatebion, arsylwi sut mae disgyblion yn gweithio gydag eraill, arsylwi sut mae disgyblion yn rhyngweithio ac yn dysgu; dadansoddi'r datblygiad a welwyd o bl 3/4 i 5/6</p>	<p>Ac i siarad â grŵp bach o blant gan ofyn iddynt sut mae well ganddynt ddysgu. Ac i ofyn beth mae'r plant yn ei ddisgwyl yn yr ysgol uwchradd.</p> <p>Adfyfrio: AC yn paratoui adroddiad byr i'w bostio i'r</p> <p>Maent yn ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • CCR • Ffyrdd o ddysgu • Damcaniaethau datblygiad • Cynnydd yn ystod CA2 • Addysgeg yn y cynradd • Ymreolaeth ac annibyniaeth disgyblion • Dysgu yn eich pwnc • Her
<p>Trwy gydol yr wythnos:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. AC yn nodi sut mae'r athro'n defnyddio'r Gymraeg. Cymharu ei ddefnydd â'r sesiynau yn y coleg. Nodi addysgeg a gwallau cyffredin 2. AC yn nodi'r pwnc sy'n cael ei gyflwyno ac yn dadansoddi'r dysgu gan roi sylw arbennig i'w pwnc arbenigol ei hun(os bosib). AC i drefnu gweld gwर्स o'u pwnc os bosibl 				
<p>Arsylwi mewn dosbarth: AC yn arsylwi dosbarthiad gyda phwyslais ar sut mae'r 4 diben yn cael eu datblygu yn ystod gwर्स.</p> <p>Adfyfrio: AC yn adfyfrio mewn grwpiau / parau ar arsylwadau. Maent yn gwneud cysylltiadau â'r damcaniaethau dysgu a gyflwynir mewn seminarau PACH perthnasol.</p>	<p>AC yn arsylwi sut mae'r athro wedi cynllunio a darparu un neu fwy o'r CTG yn eu gwर्स. Bydd angen canolbwyntio ar yr addysgeg</p> <p>AC yn adfyfrio ar yr arsylwadau sy'n nodi agweddau ar addysgu a dysgu y gellir eu hegluro gan ddamcaniaethau neu ymchwil. Hefyd, adfyfrio ar y TGC, gan ddadansoddi sut mae athrawon yn cynllunio ar eu cyfer</p>	<p>Cefnogaeth (os bosib) neu arsylwi: AC yn gweithio gyda grŵp bach o blant neu ddisgybl unigol neu'n cefnogi yn unol â chyfarwyddyd yr athro a/neu'r Cynorthwywr Addysgu.</p> <p>AC yn adfyfrio mewn parau ar arsylwadau. Canolbwyntio ar y dilyniant rhwng Sylfaen a CA2 a'i oblygiadau i addysgu a dysgu yn y cyd-destun uwchradd.</p>	<p>Arsylwi dosbarth cyfan (blwyddyn 5 neu 6) gan edrych ar annibyniaeth a nodi sut y rhoddir cyfrifoldeb i ddisgyblion gan yr athro.</p>	

Cam 1 Wythnos 2

Awgrymiadau yn unig yw'r arweiniad isod. Bydd angen addasu oherwydd y rheoliadau presenol ar gyfer ysgolion unigol oherwydd pandemig Covid 19.

Cyflwyniad ac arsylwi

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Croeso gan y Pennaeth ac yna diogelwch hanfodol ac lechyd a diogelwch a gyflwynir gan y Prif Fentor (PF)</p> <p>Arsylwi 1 Taith o amgylch yr ysgol gyda ffocws ar yr ysgol fel cymuned Mynediad at TGCh etc.</p> <p>Arsylwi 2 Arsylwi dosbarth cyfan yn yr adran. AC yn canolbwyntio ar grwpiau disgyblion, amgylchedd yr ystafell ddosbarth a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion</p>	<p>Canolbwyntio ar bolisiau'r ysgol ac ymddygiad</p> <p>Arsylwi 3 Yn dilyn cyfarwyddyd gan y Prif Fentor (PF) mae AC yn cysgodi disgybl ar gyfer pob gwrs. Yn eu tro maent yn canolbwyntio ar rhyngweithio cadarnhaol rhwng athrawon a disgyblion a thystiolaeth weladwy o'r pedwar diben ar waith</p>	<p>Arsylwi 4 AC yn arsylwi dosbarthiadau yn eu hadran gan ganolbwyntio ar addysgeg, strwythur gwersi, cynnwys a thystiolaeth o'r pedwar diben.</p> <p>Gweithgaredd 1 AC i adnabod cynlluniau gwaith a deunyddiau adran, ar-lein ac o fewn yr adran</p>	<p>Arsylwi 5 Mae AC yn arsylwi ar ddosbarthiadau mathemateg a Chymraeg gan ganolbwyntio ar ddatblygu iaith a rhifedd. Maent yn nodi agweddau a allai fod yn berthnasol i'w pwnc eu hunain</p>	<p>AC yn adfyfrio mewn grwpiau / parau ar arsylwadau. Canolbwyntio ar yr hyn maent wedi'i ddysgu, argraffiadau cyntaf o'r cwricwlwm, addysgeg a rhyngweithio rhwng athrawon a disgyblion. Maent yn nodi gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng pynciau. Maent yn nodi ymddygiadau cadarnhaol athrawon i'w mabwysiadu.</p>

Cyfrifoldebau'r mentor

Cyflwyniad i'r adran
Ystyriaethau ymarferol (lle cedwir pethau ac ati)
Dulliau o weithio
Rhoi sylw i faterion lechyd a Diogelwch yn ôl yr angen
Trefnu arsylwadau

Sylwch Ar y dudalen hon a'r tudalennau canlynol, mae gweithgareddau wedi'u cynllunio i hwyluso a strwythuro arsylwi ac adfyfrio gan AC. Awgrymiadau yn unig yw'r drefn a'r amseru a ddangosir; gall yr ysgol, yr adran a'r mentor ad-drefnu'r gweithgareddau i gyd-fynd â'u blaenoriaethau.

Cam 2 Wythnos 1 Arsylwi, cefnogi ac addysgu ar y cyd

Awgrymiadau yn unig yw'r arweiniad isod. Bydd angen addasu oherwydd y rheoliadau presenol ar gyfer ysgolion unigol oherwydd pandemig Covid 19.

Sylwch: Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adran ac amserlen y mentor. Enghraifft yw'r amserlen hon.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
-----------	-------------	--------------	----------	-------------

<p>AC yn arsylwi gwersi yn CA3. Canolbwyntio ar y sbardun/dechreuadau; trawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ymgysylltu; Asesu ar gyfer Dysgu (cyfeiriwch at sesiwn 3.1 PACH). AC yn nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu: AC yn gweithredu fel Cynorthwywr Addysgu yn unol â chyfarwyddyd y mentor / athro.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, AC yn nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei dysgu a'r addysgeg sy'n cael ei mabwysiadu gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?)</p> <p>Adfyfrio: AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud cysylltiadau â'r damcaniaethau dysgu (PACH 1.1-1.3) ac yn paratoi ar gyfer <i>Cyflwyniad A PACH</i>.</p>	<p>AC yn arsylwi gwersi yn CA3. Canolbwyntio ar ddiwedd glo gwersi, yn enwedig Asesu ar gyfer Dysgu. Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; ennyn diddordeb; AC yn parhau i nodi enghreifftiau posibl o bedwar diben dysgu.</p> <p>Cefnogi dysgu: AC yn gweithredu fel Cynorthwywr Addysgu yn unol â chyfarwyddyd y mentor / athro.</p> <p>Wrth gefnogi disgyblion, AC yn nodi'r wybodaeth bwnc y mae'r disgyblion yn ei dysgu a'r addysgeg sy'n cael ei mabwysiadu gan yr athro. (Beth maent yn ei ddysgu a sut maent yn dysgu?)</p> <p>Adfyfrio: AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud cysylltiadau â'r damcaniaethau dysgu (PACH 1.1-1.3) ac yn paratoi ar gyfer <i>Cyflwyniad A PACH</i>.</p>	<p>Addysgu mewn tîm Gwers wedi ei chynllunio a'i chyflwyno gan y mentor/athro; AC yn cael swyddogaeth gefnogol allweddol, fel cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cynorthwywr Addysgu gydag unigolion; cyflwyno sbardun.</p> <p>AC yn arsylwi dosbarth gwahanol (mewn cyfnod gwahanol os yn bosibl) Canolbwyntio ar ddechrau a diwedd gwersi, yn enwedig Asesu ar gyfer Dysgu. Parhau â thrawsnewidiadau; rheoli'r dysgu a rheoli dysgwyr; gwerthuso'r ymwneud;</p> <p>Adfyfrio: AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud cysylltiadau â'r damcaniaethau dysgu (PACH 1.1-1.3) ac yn paratoi ar gyfer <i>Cyflwyniad A PACH</i>.</p>	<p>Diwrnod MDAph <u>Astudiaethau Pwnc</u></p> <p>Gellir cyflwyno'r diwrnodau hyn ar-lein oherwydd Covid-19 , gan ei bod yn bosibl na fydd ysgolion yn gallu darparu ar gyfer nifer fawr o AC.</p> <p>Os digwyddir hyn, dylai'r AC fynychu'r ysgol rhwydwaith a chwblhau gweithgareddau fel yr amlinellir gan Gyfarwyddwr y Cwrs neu Fentor Arweiniol y Rhwydwaith.</p>	<p>Addysgu mewn tîm Gwers wedi'i chynllunio gan y mentor/athro; AC yn cael swyddogaeth gefnogol allweddol, fel cymryd grŵp o ddysgwyr; gweithredu fel Cynorthwywr Addysgu gydag unigolion; cyflwyno sbardun.</p> <p>Arsylwi Gweithgaredd dilynol i PACH 5.4 (ymddygiad yn ei gyd-destun).</p> <p>Adfyfrio Estynedig (mewn parau / grwpiau) AC yn rhannu profiadau ac yn ateb y cwestiynau canlynol: Beth a ddysgwyd gan ddisgyblion? Sut wnaeth y mentoriaid/athrawon asesu'r dysgu? A oedd y gweithgareddau'n effeithiol? A oedd angen rhoi sylw i unrhyw ymddygiadau oddi ar y dasg? Beth oedden nhw? Sut y rhwystrwyd ymddygiad gwael? Deunyddiau sy'n berthnasol i <i>Gyflwyniad A PACH</i>. yn cael eu cyflwyno, eu trafod a'u mireinio.</p>
---	---	--	---	---

Cyfarfod mentora a chyfrifoldebau
Trafod gwersi Addysgu Tîm ymlaen llaw. Cynllunio arsylwi (yn debygol o fod y dosbarthiadau mae AC yn mynd i'w haddysgu). Rhoi cyfarwyddyd i AC ar weithgareddau sbardun i'w haddysgu yn ystod yr wythnos ganlynol.

Cam 2 Wythnos 2 Arsylwi, cefnogi ac addysgu ar y cyd

Awgrymiadau yn unig yw'r arweiniad isod. Bydd angen addasu oherwydd y rheoliadau presenol ar gyfer ysgolion unigol oherwydd pandemig Covid 19.

Sylwch: Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adran ac amserlen y mentor. Enghraifft yw'r amserlen hon.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
-----------	-------------	--------------	----------	-------------

<p>Addysgu mewn tîm 1 Gwers CA3 wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan y mentor / athro; rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r AC ddysgu rhannau o'r gwersi ar gyfer rhai dosbarthiadau</p> <p>Arsylwi 1: AC yn canolbwyntio ar ymddygiad yn dilyn ymlaen o sesiwn PACH 4.5 (sesiwn yn yr Ysgol Arweiniol)</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi'r dysgu.</p> <p>AC yn dechrau cynllunio'r tasgau sbardun.</p>	<p>Addysgu mewn tîm 2 Gwers CA3 wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan y mentor/athro; rhoi mwy o gyfrifoldeb i'r AC ddysgu rhannau o'r gwersi.</p> <p>Arsylwi 2: AC yn canolbwyntio ar ymddygiad yn dilyn ymlaen o sesiwn PACH 4.5 (sesiwn yn yr Ysgol Arweiniol)</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi dysgu</p> <p>Mentor yn gwirio cynlluniau o weithgareddau sbardun</p> <p>AC yn cwblhau cynllunio'r tasgau sbardun</p>	<p>Addysgu gweithgareddau sbardun 1 Addysgu'r gweithgaredd sbardun gyda'r dosbarth a nodwyd ddydd Llun</p> <p>Adfyfrio ar unwaith. AC yn nodi ymatebion allweddol o'r gweithgaredd sbardun ac yn gwerthuso eu harwyddocâd</p> <p>Arsylwi 3: AC yn canolbwyntio ar <i>Gymraeg Pob Dydd</i>; maent yn cwblhau'r gweithgaredd sy'n dilyn o'r seminar.</p> <p>Adfyfrio ar unwaith: AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi a'u gweithgareddau sbardun eu hunain. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi dysgu</p>	<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol</p> <p><u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p><u>Cymraeg</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p>Gellir cyflwyno'r diwrnodau hyn ar-lein oherwydd Covid-19 , gan ei bod yn bosibl na fydd ysgolion yn gallu darparu ar gyfer nifer fawr o AC.</p> <p>Os digwyddir hyn, dylai'r AC fynychu'r ysgol rhwydwaith a chwblhau gweithgareddau fel yr amlinellir gan Gyfarwyddwr y Cwrs neu Fentor Arweiniol y Rhwydwaith.</p>	<p>Addysgu gweithgareddau sbardun 2 Addysgu'r gweithgaredd sbardun gyda'r dosbarth a nodwyd ddydd Llun</p> <p>Adfyfrio ar unwaith. AC yn nodi ymatebion allweddol o'r gweithgaredd sbardun ac yn gwerthuso eu harwyddocâd</p> <p>Arsylwi 5: AC yn canolbwyntio ar <i>Gymraeg Pob Dydd</i>; maent yn cwblhau'r gweithgaredd sy'n dilyn o'r seminar.</p> <p>Cynllunio AC yn nodi'r meysydd o'r cwricwlwm sydd i'w haddysgu yng Nghamau 3 a 4. Maent yn llunio drafftiau cychwynnol o gynlluniau canol tymor ar gyfer y tymor.</p> <p>AC yn adfyfrio mewn grwpiau/parau ar y dysgu y maent wedi ei arsylwi a'u gweithgareddau sbardun eu hunain. Maent yn gwneud nodiadau, gan gofio'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed. Maent yn dadansoddi dysgu</p>
---	--	---	---	--

Cyfarfod mentora a chyfrifoldebau
Sicrhau bod AC wedi deall y gweithgareddau sbardun.
Gwirio cynlluniau ar gyfer gweithgareddau sbardun.
Trefnu arsylwadau ar gyfer Cymraeg Pob Dydd.
Sicrhau fod AC yn arsylwi'r dosbarthiadau y byddant yn eu haddysgu
Cyflwyno gwybodaeth i'r AC am y dosbarthiadau byddant yn eu haddysgu yn ystod Cam 3 a 4, gan dynnu sylw at y gwersi y byddan nhw'n llwyr gyfrifol amdanynt.
Rhannu'r amserlen ddrafft gyda'r tiwtor ar gyfer Cam 3 a 4
Briffio'r AC ynghylch addysgu mewn tîm ar gyfer yr wythnos nesaf

Trefnu arsylwi ffurfiol ar gyfer y Ffurflen Asesu Addysgeg gyntaf (FfAA) tuag at ddiwedd yr wythnos

Cam 3 Wythnos 1 Arsylwi, cefnogi ac addysgu mewn tîm

Awgrymiadau yn unig yw'r arweiniad isod. Bydd angen addasu oherwydd y rheoliadau presenol ar gyfer ysgolion unigol oherwydd pandemig Covid 19.

Sylwch Bydd AC yn cymryd mwy o reolaeth dros wersi; byddant yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am 3-5 awr o wersi.
Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adran ac amserlen y mentor

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Gweithgaredd sbardun 1 Addysgu'r gweithgaredd a gynlluniwyd gyda'r dosbarth a nodwyd</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion mewn dyddiadur gysylltu deilliannau a arsylwyd, gweithgareddau a deilliannau â chynlluniau posibl e.e. "Sut fyddwn i wedi cynllunio ar gyfer hyn?" Defnyddiwch y Craidd Cyfarwyddol i ddadansoddi'r dosbarth</p> <p>AC yn arsylwi gwersi mentor Trafod y wers gyda'r mentor.</p>	<p>AC yn addysgu gwर्स mewn tîm gyda mentor. Y mentor sy'n cymryd y prif gyfrifoldeb, ond mae'r AC yn dysgu rhannau (e.e. cyflwyno'r prif weithgaredd, diwedd glo, cefnogi dysgwyr ac ati)</p> <p>AC yn cynllunio eu gwर्स eu hunain yn ogystal â swyddogaeth gefnogol eu cyfoedion. Maent hefyd yn cynllunio eu swyddogaeth gefnogol yng ngwर्स eu cyfoedion.</p> <p>Arsylwi: AC yn parhau i ganolbwyntio ar wahaniaethu.</p>	<p>Arsylwi Canolbwyntio ar wahaniaethu Nodi gwahanol ddulliau o ymdrin â chynnwys gwahanol.</p> <p>Arsylwi Canolbwyntio ar <i>Gymraeg Pob Dydd</i>; gweithgaredd sy'n dilyn o'r seminar.</p> <p>Adfyfrio Nodi agweddau allweddol ar gynllunio, gan ddefnyddio'r cynllun yn seiliedig ar arsylwi'r mentor/athro</p>	<p>Diwrnod MDaPh</p> <p><u>Astudiaethau Pwnc</u></p> <p>Gellir cyflwyno'r diwrnodau hyn ar-lein oherwydd Covid-19, gan ei bod yn bosibl na fydd ysgolion yn gallu darparu ar gyfer nifer fawr o AC.</p> <p>Os digwyddir hyn, dylai'r AC fynychu'r ysgol rhwydwaith a chwblhau gweithgareddau fel yr amlinellir gan Gyfarwyddwr y Cwrs neu Fentor Arweiniol y Rhwydwaith</p>	<p>Arsylwi AC yn arsylwi a chefnogi disgybl sydd ag ADY naill ai yn y pwnc neu mewn adran wahanol. Maent yn dilyn i fyny ar y sesiwn a gyflwynwyd yn yr Ysgol Arweiniol</p> <p>Adfyfrio a chynllunio Adfyfrio ar agweddau allweddol ar gynllunio a gweithredu eu cynlluniau eu hunain.</p>

Cyfarfod mentora a chyfrifoldebau

Sicrhau fod yr AC yn arsylwi gwर्स mentor. Trafod deilliannau'r dysgwyr gyda'r AC.

Sicrhau bod yr AC wedi cynllunio ar gyfer addysgu mewn tîm a gweithgareddau sbardun.

Trefnu arsylwadau ar gyfer Cymraeg Pob Dydd.

Rhoi cyfarwyddyd i'r AC a'u cefnogi wrth gynllunio gwर्स yr wythnos nesaf, gan nodi pa wersi sy'n gyfrifoldeb llawn iddynt. Gwirio mynediad i'r Pasbort Dysgu Personol (PDP) a gadael un sylw cychwynnol ar Lyfr Gwaith Safonau'r AC.

Gwirio Dyddlyfr Proffesiynol yr AC.

<p>AC yn cynllunio gwrs y mentor wrth edrych yn ôl gan ddefnyddio ffurflen barod CABAN a nodi agweddau allweddol sy'n angenrheidiol i'r wers.</p> <p>Cynllunio gweithgareddau sbardun a gwrsi llawn ar gyfer dosbarthiadau a nodwyd yn ystod yr wythnos flaenorol</p>	<p>Maent hefyd yn nodi gwahanol ddulliau o ymdrin â chynnwys gwahanol.</p> <p>Adfyfrio 2 Dylai'r ail gofnod ddadansoddi gwahanol addysgeg a arsylwyd.</p>			
--	--	--	--	--

Cam 3 Wythnos 2

Awgrymiadau yn unig yw'r arweiniad isod. Bydd angen addasu oherwydd y rheoliadau presenol ar gyfer ysgolion unigol oherwydd pandemig Covid 19.

Sylwch: Bydd AC yn cynllunio ac yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am 3-5 awr o wersi.

Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adran ac amserlen y mentor. Mae'r amserlen isod yn enghraifft.

Dydd Llun	Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
<p>Addysgu mewn Tîm gyda Chyfoedion Gwers wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan un AC gydag ail AC yn cefnogi.</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae'r AC sy'n cefnogi yn rhoi ail farn a sylwadau perthnasol.</p>	<p>Addysgu mewn Tîm gyda Chyfoedion Gwers wedi'i chynllunio a'i chyflwyno gan yr ail AC gyda'r AC cyntaf yn cefnogi.</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig. Mae'r AC sy'n cefnogi yn rhoi ail farn a sylwadau perthnasol.</p>	<p>Addysgu gwersi wedi'u cynllunio</p> <p>Adfyfrio Dylai cofnodion yn y dyddlyfr nodi'r hyn a ddysgir yn y wers yn ogystal â chymharu digwyddiadau gwirioneddol â'r deilliannau dysgu arfaethedig.</p>	<p>Diwrnod Ysgol Arweiniol</p> <p><u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion</p> <p>Gellir cyflwyno'r diwrnodau hyn ar-lein oherwydd Covid-19 , gan ei bod yn bosibl na fydd ysgolion yn gallu darparu ar gyfer nifer fawr o AC.</p> <p>Os digwyddir hyn, dylai'r AC fynychu'r ysgol rhwydwaith a chwblhau gweithgareddau fel yr</p>	<p>Addysgu gwersi wedi'u cynllunio</p> <p>Adfyfrio Estynedig (Prynawn) AC yn paratoi cyflwyniad adfyfuriol (mewn parau neu fesul tri) ar gyfer adolygiad y Sefydliad AU (dydd Iau nesaf), gan ddefnyddio cwestiynau Ebbutt, y Pedwarawd Gwybodaeth a'r Craidd Cyfarwyddol fel y nodir yn y Dyddlyfr Proffesiynol.</p>

<p>Cyffredinol</p> <p>AC i gynllunio ac addysgu gwersi (5 awr) gydag arweiniad y mentor</p> <p>Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan edrych ar y pedwar diben (8 awr)</p> <p>Cynyddu uwchlwytho tystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Personol.</p> <p>Parhau i adfyfrio mewn parau ar ddiwedd y dydd</p> <p>Arsylwi ffurfiol cyntaf gan ddefnyddio Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA) tua diwedd yr wythnos.</p>	<p>amlinellir gan Gyfarwyddwr y Cwrs neu Fentor Arweiniol y Rhwydwaith.</p>	
		<p>Cyfarfod mentora a chyfrifoldebau</p> <p>Sicrhau bod y tîm AC yn addysgu dwy wers gyda'u cyfoedion o bwnc arall</p> <p>Gwirio gwaith cynllunio'r AC (gwneud nodiadau ar gynlluniau)</p> <p>Trefnu arsylwadau ar gyfer addysgu'r Gymraeg.</p> <p>Parhau i roi cyfarwyddyd ar gyfer cynllunio</p> <p>Cwblhau arsylwi ffurfiol, llenwi Ffurflen Asesu Addysgeg , adolygu cynnydd a gosod targedau gyda'r AC</p> <p>Gwirio Dyddlyfr Proffesiynol yr AC</p>

Cam 4 (5 wythnos)

Awgrymiadau yn unig yw'r arweiniad isod. Bydd angen addasu oherwydd y rheoliadau presenol ar gyfer ysgolion unigol oherwydd pandemig Covid 19.

Sylwch: Bydd AC yn cynllunio ac yn addysgu gwersi llawn fel y cytunir gyda'r mentor ac yn cymryd cyfrifoldeb am 8 awr o wersi.

Bydd yr holl weithgareddau'n cael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r adran ac amserlen y mentor. Mae'r amserlen isod yn enghraifft.

Llun – Gwener	Dydd Iau	Mentora
<p>Cynllunio a chyflwyno gwersi sy'n cynnwys y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd (CTG).</p> <p>Dylai AC addysgu 8 awr mor fuan â phosibl. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid gweithredu'r cynllun cymorth</p> <p>Cynllunio'n annibynnol gyda chefnogaeth mentor</p> <p>Parhau i gefnogi ac arsylwi, gan edrych ar ADY, Ecwiti, asesu ar gyfer dysgu, (8 awr)</p> <p>Cwblhau tasgau sy'n deillio o'r seminarau Cymraeg</p> <p>Parhau i adfyfrio mewn parau unwaith yr wythnos a chysylltu ac uwchlwytho tystiolaeth i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP).</p> <p>Cwblhau Astudiaeth Gwers - mae adfyfyrdodau'n bwydo i'r Portffolio Beirniadol</p>	<p>Diwrnod ysgol Arweiniol <u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 1 Adolygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)</p>
	<p>Diwrnod ysgol Arweiniol <u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 2 Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA) gan adolygu targedau. Gwirio Dyddlyfr Proffesiynol Gwirio'r cynllunio</p>
	<p>Diwrnod SAU <u>PACH & Astudiaethau Pwnc</u> Gweler y llawlyfrau a Blackboard am fanylion Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 3 Gweithredu cylch Astudio Gwers gyda'r AC - gall hyn ddigwydd dros bythefnos Gwirio'r Dyddlyfr Proffesiynol Gwirio'r cynllunio</p>
	<p>Diwrnod MDaPh AC yn ymweld ag ysgol i astudio un agwedd ar addysgeg pwnc (yn eu Maes Dysgu a Phrofiad) Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 4 Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA) a gosod targedau Gwirio'r Dyddlyfr Proffesiynol Gwirio'r cynllunio</p>

	Diwrnod Sefydliad AU <u>PACH & Astudiaethau Pwnc</u> Gweler y llawlyfrau a Blackboard am fanylion Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19	Cyfarfod mentora 5 Cwblhau a thrafod yr Adroddiad Profiad Ysgol (APY) Adolygiad o dystiolaeth Pasbort Dysgu Proffesiynol (PLP).
--	--	--

Cam 6 Wythnos Ragarweiniol yn yr ail leoliad

Awgrymiadau yn unig yw'r arweiniad isod. Bydd angen addasu oherwydd y rheoliadau presenol ar gyfer ysgolion unigol oherwydd pandemig Covid 19.

Llun – Gwener	Dydd Iau	Cyfarfod mentora
Cyflwyniad i'r adran Sylwadau'n canolbwyntio ar Gymraeg a CTG (PF i nodi dosbarthiadau) Ymglyfarwyddo ag adnoddau a chynlluniau gwaith Adfyfrio ar ddiwrnodau Maes Dysgu a Phrofiad - cymharu a chyferbynnu ymarfer adran â 'r ysgolion eraill.	Diwrnod Ysgol Arweiniol <u>PACH</u> Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion Gellir cyflwyno'r diwrnodau hyn ar-lein oherwydd Covid-19 , gan ei bod yn bosibl na fydd ysgolion yn gallu darparu ar gyfer nifer fawr o AC. Os digwyddir hyn, dylai'r AC fynychu'r ysgol rhwydwaith a chwblhau gweithgareddau fel yr amlinellir gan Gyfarwyddwr y Cwrs neu Fentor Arweiniol y Rhwydwaith.	Cyfarfod mentora 1 Adolygu'r lleoliad blaenorol. Sicrhau mynediad i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol PDP Trafod yr Adroddiad Profiad Ysgol blaenorol ac adfyfyrdodau'r AC ar y safonau. Dyranu dosbarthiadau ar gyfer Cam 6.

Cam 6 - 8 (8 wythnos) Addysgu annibynnol ac adfyfyrio

Awgrymiadau yn unig yw'r arweiniad isod. Bydd angen addasu oherwydd y rheoliadau presenol ar gyfer ysgolion unigol oherwydd pandemig Covid 19.

Sylwch Dylai AC ddysgu hyd at **15 awr** erbyn diwedd y cam, yn dibynnu ar eu cynnydd

Dydd Llun – ddydd Gwener	Dydd Iau	Mentora
<p>Cynllunio a chyflwyno gwersi sy'n cynnwys CCR, adeiladu ar Gam 4</p> <p>Dylai AC addysgu hyd at 12 awr gan gefnogi am ddwy awr ychwanegol, yn dibynnu ar eu cynnydd. Gall yr addysgu ychwanegol fod yn addysgu mewn tîm, addysgu'r 6^{ed} dosbarth, cefnogaeth bwrpasol i grwpiau bach mewn dosbarthiadau adolygu TGAU ac ati.</p> <p>Canolbwyntiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mireinio gwahaniaethu ac Asesu ar gyfer Dysgu - dylai cynllunio gael ei lywio gan asesiad parhaus a dylai adeiladu ar ddysgu blaenorol. Mireinio rheolaeth ddosbarth ac ymddygiad Llais y disgybl: cynnwys barn y dysgwyr wrth gynllunio a rheoli dysgu Arbenigedd pwnc: gweithredu ar yr hyn a welwyd yn y diwrnodau MDAph a'r SAU Cynllunio'n annibynnol - llawer llai o gefnogaeth mentor <p>Parhau i uwchlwytho, diweddarau ac adolygu tystiolaeth i'r PLP.</p> <p>Cwblhau'r portffolio Cymraeg</p>	<p>Diwrnod SAU PACH & Astudiaethau Pwnc Gweler y llawlyfrau a Blackboard am fanylion Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 2 Canolbwyntio ar sgiliau Cytuno ar ffocws yr Ymholiad Proffesiynol</p>
	<p>Diwrnod MDAph AC yn ymweld ag ysgol i astudio un agwedd ar addysgeg pwnc (yn eu Maes Dysgu a Phrofiad) Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 3 Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA) a gosod targedau</p>
	<p>Diwrnod ysgol Arweiniol PACH Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 4 Canolbwyntio ar gynnwys o ddiwrnodau MDAph</p>
	<p>Diwrnod MDAph AC yn ymweld ag ysgol i astudio un agwedd ar addysgeg pwnc (yn eu Maes Dysgu a Phrofiad) Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 5 Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA) a gosod targedau</p>
	<p>Ysgol Rhwydwaith</p>	<p>Cyfarfod mentora 6 Cwblhau'r Ymholiad Proffesiynol a dadansoddi'r dystiolaeth gyda'r AC</p>
	<p>Diwrnod ysgol Arweiniol PACH Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 7 Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA) a gosod targedau</p>
	<p>Diwrnod ysgol Arweiniol PACH Gweler y llawlyfr a Blackboard am fanylion Nodwch y sylwadau cynharach am Covid-19</p>	<p>Cyfarfod mentora 8 Arsylwi, adolygu a chwblhau Ffurflen Asesu Addysgeg (FfAA). Adolygiad olaf y PDP</p>

Cwblhau'r Ymholiad Proffesiynol Mae pob dyddiad cyflwyno aseiniadau yn y calendr asesu	Ysgol Rhwydwaith	Cyfarfod mentora 8 Sicrhau bod y 4 arsylwad (FfAA) wedi eu cwblhau; trefnu un arall os angen. Cwblhau a thrafod yr Adroddiad Profiad Ysgol (APY)
--	-------------------------	--